

Cynllun Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Tref Llandudno
Mostyn Estates
Cyfoeth Naturiol Cymru
RSPCA



Mae'r Cynllun hwn yn llawlyfr ar gyfer rheoli poblogaeth geifr gwyllt ar y Gogarth a Llandudno, Conwy, Gogledd Cymru. Bwriad y Cynllun yw galluogi ymagwedd gyson o ran sut mae sefydliadau partneriaeth yn cyfrannu at fonitro a rheoli'r boblogaeth geifr a'u gweithgarwch cysylltiedig.

This document is also available in English.

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen ar gael drwy gais.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynllun Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno

Rheoli Dogfen

Rhif Fersiwn	Diwygiadau a wnaed	Dyddiad
f1.0	Dim - Gwreiddiol	Rhagfyr 2022
f1.5	Swyddog Amgylchedd Strategol	Mawrth 2023
f1.7	Swyddog Amgylchedd Strategol	Ebrill 2023
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Mai 2024	

Cymeradwyaeth y Cyngor

Rhif Fersiwn	Pwyllgor y Cyngor	Dyddiad
f1.7	Cabinet	Mai 2023

Cyfrifoldeb am y Cynllun

Dangosir isod y cyfrifoldeb am gyflwyno a diweddarau'r cynllun hwn

Swyddog y Cyngor	Yn gyfrifol am
<ul style="list-style-type: none">Swyddog Amgylchedd StrategolWarden y Parc Gwledig	Sicrhau cydymffurfiaeth â'r llawlyfr a diweddarau'r llawlyfr

Cynnwys

1	CYFLWYNIAD	4
2	CEFNDIR HANESYDDOL	4
3	Y SEFYLLFA BRESENNOL	6
4	CYFRIFOLDEB CYFREITHIOL	6
5	SEFYDLIADAU PARTNER	7
6	RHEOLI POBLOGAETH GEIFR	9
7	PROTOCOLAU YMYRRAETH	13
8	CYFEIRIO CAIS AT ASIANTAETH BARTNERIAETH	14
9	CYFATHREBU AG ASIANTAETHAU PARTNERIAETH GEIFR	15
10	CYFRANIADAU RHEOLI PARTNERIAETH	15
11	AMCANION RHEOLI HIRDYMOR	16

1 Cyflwyniad

Pwrpas y Cynllun hwn yw dogfennu sut mae poblogaeth geifr gwyllt y Gogarth a Llandudno yn cael ei monitro a'i rheoli gan asiantaethau partneriaeth, i sicrhau goroesiad y fuches yn y dyfodol, a chaniatáu ar gyfer cydfodolaeth rhwng y gyr ochr yn ochr â'r gymuned leol a'i anghenion. Mae'r Cynllun yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad partneriaeth wrth reoli geifr gwyllt ac yn manylu ar y gweithdrefnau a ddefnyddir i gynllunio a monitro gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'u rheoli.

2 Cefndir Hanesyddol

Hanes byr o sut y daeth y geifr i fod ar y Gogarth:

Mae geifr Kashmir yn tarddu o Tibet, Nepal, Ladakh a Kashmir - lle maen nhw'n cael eu galw'n eifr Changthangi, Changra neu Pashmina.

- 1819** Daethpwyd â geifr Kashmir i Ffrainc o Persia, trwy'r Crimea - o'r 1,500 o anifeiliaid a gafwyd dim ond 256 a gyrhaeddodd Marseilles a Toulon yn ddiogel.
- 1823** Ymwelodd Christopher Tower o Weald Hall, Essex â Pharis a phrynu dwy afr fenywaidd a dwy afr wrywaidd.
- 1828** Cynhyrchodd Christopher Tower siôl cashmir ac enillodd wobr. Gwnaeth yr eitem argraff ar y Brenin Siôr IV a chafodd bâr o eifr Kashmir – dyma gychwyn gyr Windsor a chawsant eu lleoli ym Mharc Mawr Windsor.
- 1837** Cyflwynodd Shah o Persia bâr o eifr Kashmir i'r Frenhines Victoria pan ddaeth i'r orsedd.
- 1844** Cyflwynodd y Frenhines Victoria y masgot gafr Kashmir cyntaf i'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig – dyma gychwyn y traddodiad o'r goron oedd yn teyrnasu yn darparu'r masgot. Mae cysylltiad y gatrawd â gafr yn mynd yn ôl i Frwydr Bunker Hill (America) ym 1775 ac maent wedi bod yn gorymdeithio gyda gafr ers 1777. Hyd at 1844, darparodd y gatrawd ei gafr ei hun.
- 1890au** Rhoddwyd pâr o eifr Parc Mawr Windsor i'r Uwchfrigadydd Syr Savage Lloyd-Mostyn gan y Frenhines Victoria - o bosibl tua'r adeg y gorffennodd wasanaethu fel Cynol y

Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Cadwyd y geifr i ddechrau yn Gloddaeth Hall, lle buont yn bridio, a chawsant eu rhyddhau ar y Gogarth rywbryd wedyn.

1936 Symudodd geifr Parc Mawr Windsor i Bencadlys Cymdeithas Sŵolegol Llundain yn Regent's Park – mae'r gyr bellach wedi'i lleoli yn Sŵ Whipsnade, Swydd Bedford.

1980 Y Gogarth yn cael ei sefydlu fel Parc Gwledig. Cyn hyn, roedd nifer y geifr yn cael eu cadw'n gyffredinol i rhwng tua 30 i 50 gan giper teulu Mostyn. Cynyddodd y niferoedd yn araf o tua 1985 nes bod tua 60 o anifeiliaid yn 1990.

1990au Daeth cwynion am ddifrod i eiddo cyfagos yn rheolaidd. Y casgliad ar y pryd (sy'n ymddangos yn anghywir wrth edrych yn ôl) oedd na allai'r Gogarth gynnal y boblogaeth ar y lefel honno. Cafodd tri deg o eifr eu hadleoli i Flatholm, fodd bynnag cafwyd adlach ddig gan gyfran sylweddol o'r gymuned leol nad oeddent am weld ymyrraeth â'r geifr. Cynyddodd y boblogaeth wedi hynny o 32 i 59 o eifr erbyn 1994. Bu gweithgor (yn cynnwys swyddogion y Cyngor, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Mostyn Estates a milfeddyg lleol) yn ystyried y gwahanol opsiynau. Argymhellwyd y dylid rheoli poblogaeth geifr gwyllt trwy saethu anifeiliaid unigol, gan dargedu rhai sâl, anafedig neu oedrannus iawn. Cefnogwyd yr argymhelliad hwn gan Weithgor Parc Gwledig y Gogarth a Phwyllgor Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Aberconwy ond cafodd ei wrthdroi yn y Cyngor Llawn yn dilyn gwrthdystiad cyhoeddus mawr ym Modlondeb.

2001 Yn absenoldeb ffordd glir ymlaen, arhosodd niferoedd y geifr heb eu gwirio ac yn hydref 2000 roedd yn 211. Yn 2001, penderfynodd y Cyngor leihau maint y gyr yn yr hirdymor i sicrhau dyfodol y boblogaeth geifr. Gofynnwyd am gyngor gan amrywiaeth eang o ffynonellau ynghylch rheolaeth hirdymor y gyr. Ystyriwyd mecanweithiau rheoli megis sbaddu a mewnbliadau progesteron, ynghyd ag adleoli rhai geifr fel modd o leihau niferoedd ar y Gogarth a sicrhau goroesiad hirdymor y brîd. Ar ôl ystyried yr holl opsiynau, penderfynodd y Cyngor reoli'r gyr trwy gyfuniad o fewnbliadau progesteron ac adleoli nifer fach o eifr.

2017 Nid oedd Progesterone ar gael i'w ddefnyddio yn y DU mwyach. Ar ôl cyfnod byr gydag adleoli fel yr unig opsiwn ar gyfer rheoli'r gyr, gofynnwyd am gyngor gan asiantaethau amrywiol. Cysylltwyd â'r hyn sydd bellach yn Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, a oedd yn cynnal prosiect ymchwil i'r defnydd o GonaCon â nod masnach gwrthimiwnedd atal cenhedlu. Cafwyd trafodaethau llwyddiannus a gofynnwyd am gyllid a dyma oedd y defnydd cyntaf o GonaCon i reoli poblogaeth o famaliaid sy'n byw'n rhydd yn Ewrop.

3 Y Sefyllfa Bresennol

Mae geifr y Gogarth yn symbol poblogaidd o Llandudno. Er eu bod fel arfer yn byw ar y Gogarth, gellir eu gweld yn aml o amgylch y dref yn ystod y gaeaf a'r gwanwyn. Mae'n amlwg bod patrymau ffenolegol (digwyddiadau biolegol tymhorol) yn dylanwadu ar ymddygiad geifr y Gogarth. Rhwng Ionawr ac Ebrill bydd y geifr, yn enwedig rhai grwpiau o fychod, yn ehangu eu dosbarthiad o'r Gogarth, i lawr yn aml at ardaloedd preswyl yn agos at y Gogarth a'r ardaloedd o amgylch Yr Oval (cartref Clwb Criced Llandudno, man chwarae a lawnt fowlio).

Fodd bynnag, yn 2020 a 2021, roedd y geifr ar y newyddion rhyngwladol ar ôl iddynt grwydro ymhellach na'r arfer yn sgil yr amodau tawel yn ystod pandemig Covid a'r cyfyngiadau ar symudiadau pobl a chymysgu. Arweiniodd hyn at geifr bwch o'r Gogarth yn archwilio ymhellach ac ymhellach nag arfer, ledled canol tref a pharciau manwerthu Llandudno, gan gyrraedd yn y pen draw ardaloedd y tu allan i Llandudno fel Craig y Don a Llanrhos. Roeddent hefyd i'w canfod mewn ardaloedd a ddynodwyd yn SoDdGA (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) gerllaw, megis coedydd Nant y Gamar a Gloddaeth Hall. Yn ddiddorol, ni welwyd unrhyw eifr benywaidd yn crwydro Llandudno a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r patrwm ymddygiad hwn wedi parhau ymhell ar ôl i gyfyngiadau ar symudiadau dynol gael eu codi a'r dref yn dychwelyd i fywyd normal.

4 Cyfrifoldeb Cyfreithiol

Mae geifr Llandudno wedi crwydro'n wyllt ers dros 100 mlynedd ac yn wreiddiol roedden nhw'n anrheg i'r Arglwydd Mostyn gan y Frenhines Victoria. Er eu bod unwaith ym mherchnogaeth yr Arglwydd Mostyn, mae'r geifr wedi byw'n wyllt ac felly yn awr yn cael eu hystyried yn anifeiliaid gwyllt.

Nid oes unrhyw un person neu sefydliad yn gyfreithiol gyfrifol am boblogaethau geifr Llandudno a dim ond os ydynt yn cael eu 'cau i mewn' y gallant ddod yn eiddo i rywun.

Gan fod y geifr yn anifeiliaid gwyllt, nid yw'n gyfrifoldeb cyfreithiol ar y Cyngor felly i gadw'r geifr ar y Gogarth trwy osod ffens neu 'gyfyngiant'. Os oes difrod yn cael ei achosi i eiddo cyfagos, mae'r cyfrifoldeb felly ar y perchnogion eiddo hynny i gadw'r geifr allan.

Mae gan berchennog tir hawl gyfreithiol i weithredu ar ran lles anifail, os yw anifail gwyllt mewn trallod tra ar ei dir.

Gall y Cyngor hefyd weithredu i reoli poblogaethau o anifeiliaid gwyllt sy'n byw ar ei dir, lle nad yw'r anifeiliaid hynny wedi'u diogelu gan y gyfraith a thrwy ddulliau nad ydynt wedi'u gwahardd gan y gyfraith.

Mae rheoli'r geifr wyllt a'r cynefinoedd y maent yn byw ynddynt yn cael effaith uniongyrchol ar rwymedigaethau statudol y Cyngor o ran rheoli bioamrywiaeth:

- Mae rhai cynefinoedd a rhywogaethau yn cael eu gwarchod dan statud trwy Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.
- Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau gwell ar gyrrff cyhoeddus i sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan bwysig o wneud penderfyniadau. Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru adrodd ar y camau y maent yn eu cymryd i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.
- Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gwneud bioamrywiaeth yn rhan annatod o wneud penderfyniadau, gan orfodi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio, cynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae adran 7 yn disodli adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 gan osod dyletswydd ar y llywodraeth i gyhoeddi, adolygu a diwygio rhestrau o organebau byw a'r mathau o gynefinoedd, y maent yn eu hystyried yn allweddol bwysig o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru.
- Mae Adran 21 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol gaffael, datgan a rheoli Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNL) ar ôl ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru.

5 Sefydliadau Partner

Mae gan y sefydliadau partner ddiddordeb yn y geifr gwyllt oherwydd perchnogaeth tir, budd cymunedol, cadwraeth neu les anifeiliaid. Mae cymryd rhan a chyflawni'r rolau a ddisgrifir yn y Cynllun hwn yn wirfoddol a gellir ei dynnu'n ôl unrhyw bryd. Fel mater o gwrteisi proffesiynol, dylid rhoi 12 mis o rybudd i dynnu'n ôl.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
 - Gweithredu fel asiantaeth bartner i Grŵp Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno i ddod o

hyd i atebion ac ysgogi camau gweithredu ar faterion yn ymwneud â geifr a strategaethau rheoli

- Datblygu Cynllun Rheoli Geifr Gwyllt
 - Sicrhau gweithredu a monitro effeithiol o'r Cynllun
 - Trefnu, cadeirio a darparu cefnogaeth ysgrifenyddol ar gyfer cyfarfodydd partner
 - Hwyluso adolygiad cynnydd a diweddarau blynyddol
 - Monitro a chydlynu technegau rheoli ar gyfer cynnal y boblogaeth orau o eifr
 - Gweithredu ar ran lles yr anifeiliaid, os yw anifail gwyllt mewn trallod tra ar dir y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn berchen arno neu'n ei reoli, gan gysylltu â milfeddygon lleol neu'r RSPCA os oes angen
 - Darparu cymorth ariannol ar lefel y cytunwyd arni i gyflawni'r Cynllun
- **Cyngor Tref Llandudno:**
 - Gweithredu fel asiantaeth bartner i Grŵp Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno i ddod o hyd i atebion ac ysgogi camau gweithredu ar faterion yn ymwneud â geifr a strategaethau rheoli
 - Codi problemau geifr gwyllt ar ran y gymuned leol
 - Darparu cymorth ariannol ar lefel y cytunwyd arni i gyflawni'r Cynllun
- **Mostyn Estates Ltd:**
 - Gweithredu fel asiantaeth bartner i Grŵp Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno i ddod o hyd i atebion ac ysgogi camau gweithredu ar faterion yn ymwneud â geifr a strategaethau rheoli
 - Darparu cymorth ariannol ar lefel y cytunwyd arni i gyflawni'r Cynllun
 - Darparu adnoddau a chefnogaeth i wneud casgliadau geifr, crynhoi ac adleoli
- **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC):**
 - Gweithredu fel asiantaeth bartner i Grŵp Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno i ddod o hyd i atebion ac ysgogi camau gweithredu ar faterion yn ymwneud â geifr a strategaethau rheoli
 - Darparu cymorth ariannol ar lefel y cytunwyd arni i gyflawni'r Cynllun
 - Darparu cyngor, cefnogaeth ac adnoddau ar gyfer rheoli cynefinoedd SoDdGA/ACA y mae geifr gwyllt yn byw ynddynt
- **RSPCA (Cenedlaethol):**
 - Gweithredu fel asiantaeth bartner i Grŵp Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno i ddod o hyd i atebion ac ysgogi camau gweithredu ar faterion yn ymwneud â geifr a

strategaethau rheoli

- Cynorthwyo gyda materion lles geifr yn y dref neu ar dir preifat. Gan fod yr RSPCA yn elusen gydag adnoddau cyfyngedig iawn, bydd yn asesu pob achos yn unigol i benderfynu ar y ffordd orau o ymateb.
- **RSPCA (Cangen Aberconwy):**
 - Gweithredu fel asiantaeth bartner i Grŵp Rheoli Geifr Gwyllt Llandudno i ddod o hyd i atebion ac ysgogi camau gweithredu ar faterion yn ymwneud â geifr a strategaethau rheoli
 - Darparu cefnogaeth ariannol lle bo modd i gyflawni'r Cynllun
 - Darparu cyngor a chymorth arbenigol ar faterion lles anifeiliaid
 - Darparu cymorth ymarferol gyda materion lles geifr lle mae angen defnyddio gwn dartiau tawelu.

6 Rheoli Poblogaeth Geifr

Datblygwyd dull cynaliadwy o reoli poblogaeth geifr gwyllt Llandudno mewn partneriaeth ag APHA Llywodraeth y DU (Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion), RSPCA, CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) a milfeddyg lleol. O ganlyniad, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda chefnogaeth gan bartneriaid, yn defnyddio cyfuniad o strategaethau monitro a rheoli'r boblogaeth gyda'r nod o gadw'r gyr o eifr o fewn yr amrediad poblogaeth targed presennol:

- Cyfrif geifr ddwywaith y flwyddyn (Gwanwyn a Hydref) o'r gyr cyfan ar y Gogarth
- Cyfrif mynnod bob Gwanwyn
- Corlannu ar gyfer archwiliadau iechyd a rhoi brechlyn atal cenhedlu GonaCon
- Ad-leoli grwpiau o eifr (i sefydliadau neu safleoedd cadwraeth yn y DU)

Cyfrifir y boblogaeth darged yn flynyddol ar sail demograffeg y gyr fel y'i pennir o'r cyfrifiadau a chan gyfeirio at y niferoedd sydd eu hangen i gynnal gyr cynaliadwy yn y cynefin sydd ar gael. Y targed poblogaeth presennol yw 120 – 130.

Cyfrif Geifr

Mae Warden Parc Gwledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn trefnu cyfrif geifr er mwyn monitro cyfanswm nifer y geifr gwyllt ar y Gogarth.

Cynhelir tri chyfrifiad geifr bob hyn a hyn yn ystod y flwyddyn. Mae cyfrifiad llawn cyntaf y gyr yn digwydd yn y Gwanwyn rhwng Ebrill a Mai, a ailadroddir yn ddiweddarach yn yr Hydref/Gaeaf rhwng

Tachwedd a Rhagfyr. Mae cyfrif o nifer y mynnod sy'n cael eu geni bob blwyddyn hefyd yn cael ei wneud ar ddiwedd mis Mawrth.

Mae'r cyfrifon yn cyfrifo cyfanswm nifer y bychod, geifr a mynnod sy'n byw ar y Gogarth bob blwyddyn. Trwy ddeall cyfansoddiad y gyr, gellir gwneud penderfyniadau gwybodus gan ddefnyddio technegau modelu poblogaeth i benderfynu pa gamau, o ran atal cenhedlu ac adleoli sydd angen eu hystyried a'u cynllunio.

Corlannu Geifr

Gellir corlannu geifr bob tair blynedd, yn dibynnu ar ganlyniadau'r cyfrifiad geifr blynyddol a'r modelu poblogaeth. Mae'r brechlyn atal cenhedlu GonaCon wedi'i ddangos i fod yn effeithiol am tua 3 blynedd mewn geifr, ac felly dyna pam fo'r cyfnod hwn rhwng y corlannu'n digwydd.

Cynhelir y corlannu ar y Gogarth i ddal geifr benywaidd i'w brechu neu i'w hail-frechu â'r dull atal cenhedlu, ac ar gyfer adleoli geifr, os oes angen neu os yn bosibl.

Mae'r corlannu'n golygu adeiladu ffensys dros dro i arwain y geifr i gorlannau cadw fel y gellir gweinyddu GonaCon neu gynnal archwiliad iechyd gan filfeddyg cyn adleoli. Mae angen nifer sylweddol o bobl (o leiaf 30) i ddarparu'r adnodd i ddiogelu'r geifr yn y corlannau cadw. Ni ddefnyddir cŵn

Rhaglen Atal Cenedlu

Ers 2009, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a phartneriaid wedi bod yn gweithio gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) (FERA gynt) ar dreial ymchwil yn ymwneud â defnyddio brechlyn atal cenhedlu imiwno-ataliol o'r enw GonaCon. Mae GonaCon yn targedu hormon sy'n rhyddhau gonadotropin (GnRH) a dangoswyd ei fod yn frechlyn dos sengl effeithiol mewn sawl rhywogaeth. Dangoswyd ei fod yn lleihau ffrwythlondeb geifr benyw ers sawl blwyddyn, gyda'r model yn dangos y byddai brechu 75% o eifr benyw llawn dwf yn lleihau cyfradd twf y boblogaeth yn agos at sero.

Dim ond at ddibenion ymchwil y mae GonaCon CBSC wedi'i drwyddedu, felly mae defnydd parhaus o GonaCon fel techneg rheoli poblogaeth yn dibynnu ar:

a) gwneud pob ymdrech bosibl i ddal digon o eifr i wneud astudiaeth ddefnyddiol o ymchwil yn ogystal â gweithredu strategaeth reoli lwyddiannus, hynny yw, o leiaf 2/3 o gyfanswm amcangyfrifedig y boblogaeth fenywaidd ar hyn o bryd.

b) am 3 blynedd gan wneud cyfrifiadau poblogaeth ddwywaith y flwyddyn (Hydref, ym mis Hydref neu Dachwedd, a'r Gwanwyn, ym mis Ebrill neu fis Mai) a chyfrifiadau mynnod blynyddol (ym mis Mawrth neu fis Ebrill) lle cofnodir presenoldeb mynnod ar gyfer geifr unigol sydd wedi'u tagio ynghyd â chyfran o eifr benyw heb eu tagio â mynnod.

c) cael cymorth gan bractisau milfeddygol i wneud cais am y drwydded fewnforio i gael a rhoi'r brechlyn GonaCon

d) cael cyllid wedi'i sicrhau gan yr asiantaethau partneriaeth i gael a chyflwyno'r uchod yn llwyddiannus

Adleoli geifr

Mae adleoli grwpiau o eifr gwyllt wedi'i ddefnyddio, ochr yn ochr ag atal cenhedlu, fel ffordd o reoli'r boblogaeth ers 2001. I ddechrau, hysbysebwyd argaeledd geifr gwyllt at ddibenion pori cadwraethol trwy gylchlythyr y Prosiect Anifeiliaid Pori*. Yn ddiweddar, ni fu angen hysbysebu ac mae ar lafar gwlad gan sefydliadau cadwraeth, yn bennaf yn Lloegr, wedi arwain at ddiddordeb pellach mewn cymryd geifr y Gogarth at ddibenion pori ar sawl SoDdGA (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

Mae Warden y Parc Gwledig wedi cysylltu â phartïon â diddordeb, weithiau gyda chymorth yr RSPCA, i wirio bod y perchnogion newydd arfaethedig a'u heiddo yn addas i'r geifr gael eu hadleoli iddynt. Gan ei fod yn anifail gyr, ac o ystyried lles y geifr, mae grwpiau o eifr wedi'u hadleoli, yn bennaf i leoliadau lle gellir cynnig bodolaeth lled-wyllt i efelychu'n agos natur wyllt y geifr ar y Gogarth.

Cyflwynwyd rheolaethau symud da byw am y tro cyntaf ar ôl yr achosion o glwy'r traed a'r genau (FMD) yn 2001. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth ddilynol wrth adleoli geifr, mae gan y Cyngor rif CPH (rhif Daliadaeth Plwyf y Gymuned) ar gyfer y tir lle mae'r geifr gwyllt yn preswyllo. Rhaid i bob daliad da byw gael rhif CPH fel y gall y llywodraeth olrhain symudiadau da byw i atal a rheoli clefydau. Mae pob adleoliad o eifr yn golygu bod geifr yn cael eu tagio'n briodol i gydymffurfio â Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015. Mae'r gorchymyn hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion gael eu cadw ar ffurf llyfr praidd ac ar gyfer pob symudiad o eifr oddi ar y daliad i'w cofnodi trwy lenwi Ffurflen Trwydded Symud Anifeiliaid (AML1). Cyflwynir ffurflenni trwydded i EIDCymru. Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cymru) 2007 (WATO) yn ei gwneud yn ofynnol i gludwyr gario dogfennaeth y cyfeirir ati fel Tystysgrif Cludo Anifeiliaid. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gofnodi tarddiad a pherchnogaeth yr anifeiliaid, man ymadael a chyrchfan, a hyd disgwylidig y daith i'w gwirio a'u hasesu. Mae Adran 2 y ffurflen AML1 yn ymdrin â rheoliadau WATO a osodwyd yng Nghymru.

Mae geifr y Gogarth wedi cael eu hadleoli i wahanol safleoedd cefn gwlad o amgylch y DU, at ddiben pori cadwraethol. Y sefydliadau a'r lleoliadau yw:

- Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Caint
- Porwr preifat – pori bryngaer sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ger Crucywel, Aberhonddu, Powys
- Porwr preifat – tir pori ger Whitby, Gogledd Swydd Efrog
- Porwr preifat – pori clogwyni arfordirol SoDdGA, Ynys Môn
- Cyngor Dinas Bryste - Ceunant Avon
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Suffolk
- Stad breifat i'r de o Fryste – pori glaswelltir calchfaen SoDdGA
- Porwr preifat – pori tir clogwyn arfordirol SoDdGA sy'n eiddo i Gyngor Bournemouth, Christchurch a Poole

*Datblygwyd y Prosiect Anifeiliaid Pori (GAP) ym 1997 i gynorthwyo datblygiad pori cadwraethol, a ddiffinnir fel 'pori sy'n bodloni amcanion cadwraeth natur'. Rhwydwaith partneriaeth DU gyfan o ymarferwyr a chynghorwyr o'r sectorau cadwraeth natur, amaethyddol a da byw yw GAP. Mae'r bartneriaeth wedi gweithredu gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys: DEFRA, Natural England, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

7 Protocolau Ymyrraeth

Gan fod y geifr yn anifeiliaid gwyllt, nid yw'n gyfrifoldeb cyfreithiol ar neb i gadw'r geifr ar y Gogarth trwy osod ffens neu 'gyfyngiant'. Pe bai'r geifr yn cael eu cadw neu eu hamgáu'n barhaol, byddent yn dod yn eiddo i'r parti sy'n eu cadw ac yn colli eu statws gwyllt, felly peidio ag ymyrryd yw'r sefyllfa ddiodyn.

Fodd bynnag, gall ymyrraeth achlysurol ac wedi'i threfnu, os cytunir arno gan bartneriaid ar sail risg annerbyniol i les pobl neu anifeiliaid, ddigwydd. Oherwydd yr anawsterau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â threfnu, rheoli a chydgysylltu'r corlannu geifr mewn ardaloedd trefol, bydd ymyrraeth yn digwydd yn unig fel tasg sydd wedi'i threfnu a'i hamseru'n briodol ar adegau pan fydd corlannu yn debygol o fod yn llwyddiannus. Mae profiad blaenorol o ddelio â bychod sy'n crwydro wedi rhoi gwybodaeth ynghylch pryd mae casgliadau yn fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus a phryd maen nhw fwyaf tebygol o fethu. Gall patrymau ffenolegol a rhythmau biolegol ddylanwadu ar ymddygiad geifr, felly mae rhai cyfnodau o'r flwyddyn pan na fydd corlannu yn cael ei wneud gan y byddai'r geifr yn debygol o ddychwelyd i'r lleoliad ar ôl eu casglu.

Dim ond yn ystod Ebrill a Mai pan fydd yn fwy tebygol y bydd y geifr yn aros ar y Gogarth y bydd corlannu wedi'u trefnu yn cael eu hystyried. Dim ond os yw'n ymddangos bod geifr crwydrol wedi ymgartrefu mewn un lleoliad am gyfnod o bythefnos ac os yw'r lleoliad yn ddiogel i'r geifr a'r unigolion sy'n rhan o'r corlannu, y bydd corlannu'n cael eu hystyried, oherwydd y risgiau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â chorlannu geifr mewn ardal drefol.

Pan ystyrir bod corlannu'n gwbl angenrheidiol, ar sail risg annerbyniol i les pobl neu anifeiliaid, ar adeg pan fo'r ymgyrch yn debygol o fod yn llwyddiannus, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gweithio gyda Mostyn Estates a'r asiantaethau partner eraill i gyflawni hyn.

8 Cyfeirio Cais at Asiantaeth Bartneriaeth

Mae'r adran hon yn disgrifio rhai o'r materion cyffredin sy'n cael eu hadrodd gan y cyhoedd i asiantaethau partner a'i nod yw cadarnhau at bwy y dylid cyfeirio rhai mathau o adroddiadau yn y lle cyntaf.

Mathau o Adroddiadau

Mae'r tabl hwn yn disgrifio'r mathau o adroddiadau ac yn nodi'r sawl sy'n cyfrifol.

Math o adroddiad	Disgrifiad	Y wawl sy'n gyfrifol
Gafr wedi'i hanafu neu mewn tralod ar y Gogarth	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae'n ymddangos bod yr afr wedi dioddef anaf, yn ymddangos yn sâl neu'n dangos arwyddion o salwch, neu'n sownd ar y Gogarth yn Llandudno 	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*
Gafr wedi'i hanafu neu mewn tralod yn y dref	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae'n ymddangos bod yr afr wedi cael anaf, yn ymddangos yn sâl neu'n dangos arwyddion o salwch, neu'n sownd ar dir preifat yn Llandudno (gerddi, ffyrdd, eiddo masnachol) 	RSPCA
Gafr yn achosi pryder ar briffordd gyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae'r afr yn achosi rhwystr neu'n peri risg i ddefnyddwyr priffordd 	Heddlu Gogledd Cymru
Gafr yn achosi difrod i eiddo preifat	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae'r afr yn achosi difrod i eiddo preifat 	Amh – Cyfrifoldeb perchennog y tir neu berchennog yr eiddo
Baw gafr ar balmant prysur	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae swm sylweddol o faw gafr ar balmant sy'n cael ei ddefnyddio'n aml, ger ysgol, canol tref neu y tu allan i amwynder cyhoeddus 	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

* Ar y cyd â milfeddyg lleol neu'r RSPCA lle bo angen

9 Cyfathrebu ag Asiantaethau Partneriaeth Geifr

Mae Adran 5 y llawlyfr hwn yn nodi pa asiantaeth bartner y dylid cyflwyno adroddiad iddi yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r adran ganlynol yn rhoi manylion cyswllt a rhifau ffôn yr asiantaethau partneriaeth geifr perthnasol, yn ogystal â gwefan y Cyngor sydd ar gael i roi rhagor o wybodaeth a chyngor ar reoli geifr gwyllt.

Asiantaeth Bartner	Rhif Ffôn	Cyfeiriad e-bost	Gwefan
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Tîm Cynghori Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	Dydd Llun i ddydd Gwener 9am tan 5pm 01492 575337	affch@conwy.gov.uk	https://www.conwy.gov.uk/ygogarth
Heddlu Gogledd Cymru	101 ar gyfer achosion nad ydynt yn argyfyngau	northwalespolice@northwales.pnn.police.uk	Gwasanaeth Sgwrsio Heddlu Gogledd Cymru www.northwales.police.uk/cy-GB/riportio/riportio/
RSPCA	0300 1234 999		www.rspca.org.uk/utilities/contactus/reportcruelty

10 Cyfraniadau Rheoli Partneriaeth

Ariannol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Mostyn Estates Ltd, Cyngor Tref Llandudno, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cangen Aberconwy o'r RSPCA

Ymarferol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Mostyn Estates Ltd, RSPCA (Cenedlaethol), Heddlu Gogledd Cymru

Cynghori – Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPCA (Cenedlaethol), Cangen Aberconwy o'r RSPCA, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

11 Amcanion Rheoli Hirdymor

OB01 - Rheoli'r gyr fel bod y brîd yn goroesi i'r dyfodol ar y Gogarth a, thrwy weithio gyda sefydliadau eraill, sicrhau bod gyroedd o'r brîd sydd wedi eu hadleoli yn bodoli mewn mannau eraill yn y DU

OB02- Rheoli gyr ar y Gogarth fel bod gwrthdaro â chymdogion dynol yn cael ei leihau a bod lles yr afr unigol yn cael ei sicrhau, cymaint â phosibl, mewn gyr gwyllt sy'n crwydro'n rhydd.

OB03- Rheoli gyr i sicrhau bod difrod i gynefinoedd SoDdGA/ACA yn gyfyngedig.

OB04 - Rheoli'r gyr i sicrhau bod rheolaeth gadarnhaol o gynefin SoDdGA/ACA yn parhau ar ffurf rheoli prysgwydd gan eifr pori.

OB05 – Ceisio cyllid i fuddsoddi mewn pecynnau cymorth monitro cylch bywyd a chynllunio

OB06 – Ceisio cyllid i gynnal prosiect ymchwil

OB07 – Ceisio cyllid i sicrhau gwelliannau digonol a chynnal cynefinoedd